



## Telerau ac amodau ar ddefnyddio tystysgrif ddinistrio gwasanaeth ar-lein DVLA a chyhoeddi hysbysu dinistriadau ar gyfer cerbydau.

### Pwrpas

Cyhoeddwyd y telerau ac amodau hyn i gyfleusterau triniaeth awdurdodedig (AFT), sydd wedi'u cofrestru i ddefnyddio gwasanaeth ar-lein tystysgrif ddinistrio (COD) DVLA. Mae hefyd yn ymdrin â mater hysbysu dinistr (NOD) ar gyfer cerbydau na chaniateir eu hysbysu trwy'r system COD.

Fel defnyddiwr ATF:

- mae'n rhaid ichi ddarllen, deall, a chytuno'n llawn i'r holl delerau ac amodau, fel y nodir yn y ddogfen hon
- rydych yn cydnabod eich bod yn derbyn ac yn deall y gofynion wrth gyrchu [www.dvlaonline.gov.uk](http://www.dvlaonline.gov.uk)
- gall methiant i gadw at y telerau ac amodau hyn arwain at drosglwyddo gwybodaeth i'r rheolydd amgylcheddol a gyhoeddodd y drwydded.

### Diffiniad defnyddiwr ATF:

Person neu gwmni sy'n dal trwydded ATF dilys a gyhoeddwyd gan y rheolwr amgylcheddol perthnasol.

### Pryd i gyhoeddi COD

Cyhoeddir y COD i gadarnhau bod cerbyd yn cael ei ddinistrio yn unol â gofynion Adran 17A y Rheoliad Cerbydau Ffyrdd (Cofrestru a Thrwyddedu) 2002 (fel y caiff eu diwygio) a Rheoliadau Cerbydau Diwedd Oes 2003 (fel y caiff eu diwygio). Rhaid rhoi COD i geidwad y cerbyd neu i'r person sy'n cyflwyno'r cerbyd i ATF. Y cerbydau sydd wedi'u cynnwys yw:

- ceir
- faniau ysgafn lan at 3,500kg
- cerbydau tair olwyn (ac eithrio beiciau modur tair olwyn a sgwteri)

### Pryd i gyhoeddi NOD

Dylid roi NOD i gerbydau nad ydynt o fewn [Rheoliadau Cerbydau Diwedd Oes 2003](#). Er enghraifft, cerbydau nwyddau trwm a cherbydau eraill sy'n pwyso dros 3500kg. Bydd angen i feiciau modur a sgwteri hefyd gyflwyno NOD.

Pan fydd defnyddiwr ATF yn mewnbwnu manylion y cerbyd ar system ar-lein COD, mae'n diweddarau'r manylion yn awtomatig fel NOD. Pan fydd cofnod cerbyd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu NOD, yn wahanol i COD, ni roddir tystysgrif ddinistrio (COD).

### Pwrpas y system COD

Mae'n caniatáu i ATF i gyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol i hysbysu DVLA pan fydd cerbyd yn cael ei ddiswyddo neu ei ddinistrio (ei sgrapio) a darparu'r cyfleuster i:

- roi COD a dweud wrth DVLA i gau cofnod cerbyd yn barhaol os yw wedi cael ei ddadlygru neu ei ddinistrio (ei sgrapio)
- dweud wrth DVLA bod cerbyd wedi cael ei ddadlygru neu ei ddinistrio (sgrapio) a bod NOD wedi cael ei roi i'r cerbyd (mae NOD yn berthnasol i bob cerbyd sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau Cerbydau Diwedd Oes 2003)

## Mae cyhoeddi COD yn ofyniad cyfreithiol

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn Adran 17A o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Cofrestru a Thrwyddedu) 2002 (fel y caiff eu diwygio) a Rheoliadau Cerbydau Diwedd Oes (ELV) 2003 (fel y caiff eu diwygio). Mae'n gadarnhad gan ATF bod cerbyd wedi'i ddinistrio gan gyfleuster sy'n dal y caniatâd priodol i wneud hynny.

1. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r ATF i brosesu hysbysiadau gyda'r manylion cerbyd cywir.
2. Unwaith i COD gael ei gwblhau, mae'r hysbysiad yn cau cofnod DVLA yn awtomatig ac ni chaiff unrhyw gamau pellach eu prosesu (er enghraifft, newid ceidwad, cyhoeddi tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log)).
3. Ni fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar y ffordd unwaith y bydd datganiad COD wedi'i wneud (dylid ei ddinistrio'n gywir).
4. Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol i dynnu datganiad COD o gofnod cerbyd, felly mae cywirdeb yn hanfodol.

## Telerau mynediad defnyddwyr

Trwy gyrchu'r Gwasanaeth DVLA, rydych chi y defnyddiwr ATF, yn cytuno â'r telerau a gymhwysir gan DVLA yn y ddogfen hon.

Mae gwasanaeth ar-lein DVLA yn caniatáu i ATF a sefydliadau, i hysbysu DVLA yn electronig bod cerbyd modur wedi'i ddadlygru neu ei ddinistrio (ei sgrapio). Bydd yr ATF yn gallu rhoi COD i ddeiliad neu geidwad cofrestredig y cerbyd (ni roddir tystysgrifau wrth hysbysu NOD).

Pan godir COD neu NOD gan drydydd parti (cwmni yswiriant neu brocer, darparwr gwasanaeth), rhaid i'r cerbyd y mae'r COD (neu NOD) yn cyfeirio ato, gael ei ddadlygru a'i ddinistrio gan ddeiliad y drwydded (yr ATF).

Trwy gyrchu system ar-lein COD, rydych chi, y defnyddiwr ATF, yn cytuno i:

- fod wedi darllen a deall yr holl telerau ac amodau a amlinellir yn y ddogfen hon
- cadw ar yr holl ofynion a chanllawiau a gyhoeddir
- bod wedi derbyn copi o'r canllaw i ddefnyddwyr ac yn dilyn a chadw at arferion cywir

## Hyd y trefniadau hyn

- Bydd y trefniadau a restrir o fewn y telerau ac amodau hyn yn dechrau pan fydd DVLA yn caniatáu mynediad i'r gwasanaeth a byddwch chi, defnyddiwr yr ATF, yn cytuno i'r telerau ac amodau. Bydd y cytundeb hwn yn parhau i gael effaith ac yn dod i rym nes i'r DVLA wneud newidiadau.
- Mae telerau ac amodau hefyd yn berthnasol i ddefnyddwyr presennol.
- Ni fydd DVLA yn ad-dalu deiliad y drwydded (defnyddiwr ATF) am unrhyw waith a wneir o dan delerau'r trefniadau hyn.
- Trwy gyrchu [www.dvlaonline.gov.uk](http://www.dvlaonline.gov.uk) rydych yn cydnabod eich bod yn derbyn ac yn deall yr uchod.

Cynhyrchwyd y telerau ac amodau hyn gan DVLA, ac fe'u cefnogir gan:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
- Asiantaeth Amgylcheddol (EA), Lloegr
- Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)
- Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA)
- Ffederasiwn Achub Cerbydau Prydain (BVSF)
- Cymdeithas Ailgylchwyr Cerbydau (VRA)

## Newidiadau i fanylion deiliad y drwydded (defnyddiwr ATF)

Rhaid ichi ddweud wrth y rheolydd amgylcheddol perthnasol a DVLA ar unwaith (yn ysgrifenedig) os oes unrhyw newid i'ch wybodaeth chi, deiliaid y drwydded:

- gall y newidiad fod oherwydd bod eich sefydliad wedi cael ei gymryd drosodd, bu newid rheolaeth neu os bu newid i enw neu statws
- os bydd cwmni'n cael ei gymryd drosodd (ei werthu) neu sefydlu cwmni newydd, rhaid ichi wneud cais am eich caniatâd neu fynediad eich hun

Ni ellir trosglwyddo'r hawliau hyn i ddefnyddiwr newydd diffinnir sefydliad yn Neddf Cwmnïau 1985, ac unrhyw newidiadau o'r fath fel y caiff eu diffinio yn adran 4116 o 'Ddeddf Incwm a Threthi Corfforaeth 1988'.

Gallwch ddweud wrth DVLA am unrhyw newid trwy:

- e-bost: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk)
- trwy'r post:  
Y Tîm COD – Gweithrediadau Digidol  
DVLA  
ABERTAWE  
SA6 7JL

## Cyfrifoldebau DVLA

Mae DVLA yn darparu gwefan bwrpasol ac:

- yn cynnal y wefan i ganiatáu i ATF i hysbysu dinistriad cerbyd modur yn electronig
- yn darparu'r cyfleuster i argraffu COD
- yn caniatáu mynediad i'r system ar-lein unwaith y bydd y safle ATF yn gweithredu yn unol â'r safonau angenrheidiol a bod DVLA wedi cael gwybod am roi trwydded gan y rheolydd amgylcheddol priodol
- yn darparu dogfennaeth defnyddiwr briodol, data gofynion defnyddiwr a chyfleuster desg gymorth (rhif cyswllt ffôn y ddesg gymorth ar gyfer ailosod ymholiadau yn unig yw 0300 123 0793 ac mae ar gael rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 2pm ddydd Sadwrn. Ar gyfer pob ymholiad arall, cysylltwch â 0300 123 1345 rhwng 8am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- yn gyfrifol am ddarparu IDau mynediad defnyddiwr priodol ac am atal mynediad heb awdurdod i'r IDau a'r cyfrineiriau hyn
- yn dychwelyd data cerbyd penodol pan fyddant yn cael COD neu NOD gan y cwmni i'w galluogi i groeswiro'r data y mae'r defnyddiwr yn ei gyflwyno
- yn dychwelyd negeseuon gwall os yw trafodiad yn methu gwiriadau dilysu, (bydd hyn yn caniatáu i'r sefydliad benderfynu beth i'w wneud nesaf) a champau gweithredu priodol wedi'u cynnwys yn nogfennaeth y defnyddiwr
- yn gyfrifol am gynnal a chomisiynu adolygiadau archwilio i sicrhau bod systemau rheolaeth fewnol defnyddwyr yn darparu trefniadau diogelwch digonol, sy'n cydymffurfio â'r cytundeb hwn ac yn cydymffurfio ag arfer gorau

## Proses archwilio

Mae DVLA yn cadw'r hawl i ymchwilio i ddefnyddiwr COD os cyflwynir tystiolaeth i ddangos bod defnyddiwr ATF wedi camddefnyddio'r system.

Er mwyn diogelu cywirdeb y gofrestr cerbydau, mae gan DVLA yr hawl i gynnal archwiliadau neu wiriadau o ATF ar unrhyw adeg.

Os bydd tystiolaeth yn cael ei datgelu o unrhyw amheuan o dwyll neu weithgaredd troseddol, gall DVLA, os yw'n briodol, anfon gwybodaeth at yr heddlu a rheoleiddiwr amgylcheddol a roddodd y drwydded.

Rhaid i'r ATF gytuno i gymhwyso'r arferion cywir, fel yr amlinellir yn y telerau ac amodau hyn, a dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd wrth wneud datganiadau COD.

## At ddibenion archwilio, rhaid ichi, y defnyddiwr ATF neu COD, gytuno i:

- rwygo pob tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) ar ôl y cyfnod cadw y cytunwyd arno o 12 mis
- storio unrhyw wybodaeth a dynnwyd o gronfa ddata COD yn ddiogel, oherwydd dylid ddinistrio unrhyw wybodaeth a gafwyd sy'n gysylltiedig â hi yn gywir cyn gynted ag y bydd defnyddiwr y system wedi gorffen ei defnyddio
- peidio â dyblygu na chopio'r wybodaeth gan ei bod yn eiddo i DVLA (a hawlfraint y data hwn yw eiddo'r Goron yn unig)
- darparu DVLA gyda mynediad at ardal weithredol eich sefydliad i wirio sut eich bod yn prosesu COD neu ddata cerbyd ELV
- rhoi mynediad i DVLA i unrhyw ffeiliau a chofnodion sy'n ymwneud â gwybodaeth cerbyd wedi'i sgrapio (COD) i sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio'n gywir a bod diogelwch eich storfa neu fynediad, yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data
- caniatáu mynediad i DVLA i archwilio'ch cyfleusterau neu'ch adeilad a rhoi mynediad i DVLA i unrhyw systemau rheolaeth fewnol at ddibenion archwilio - mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag arfer gorau wrth goladu a phrosesu gwybodaeth cerbyd COD neu ELV

## Cyrchu system ar-lein COD

Rhaid ichi, defnyddiwr yr ATF:

- nodi'ch enw defnyddiwr neu ID unigryw a'ch cyfrinair a ddarperir gan DVLA, ac wrth wneud hynny cytuno i'r telerau - byddwch wedyn yn gallu mewngofnodi i'r gwasanaeth COD neu NOD
- sicrhau bod eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair yn cael ei gadw'n ddiogel ac na chaiff ei ddefnyddio gan unrhyw berson neu sefydliad arall oni bai eich bod yn darparu gwasanaeth i ddeiliad y drwydded (defnyddiwr ATF) i hwyluso cydymffurfriad

## Cyhoeddi COD trwy'r system ar-lein

Cyn ichi ddadlygru neu ddinistrio cerbyd a rhoi COD, rhaid ichi arsylwi neu gofnodi a mewnbwnnu gwybodaeth (data) penodol am y cerbyd a sicrhau:

- bod mewnbwn data i'r system yn gywir – mae hyn yn cynnwys cael golwg corfforol a chymryd nodyn cywir o rif cofrestru'r cerbyd a VIN
- bod y manylion yn cael eu cymryd o'r cerbyd go iawn
- eich bod yn croesgyfeirio manylion y cerbyd yn erbyn tystysgrif gofrestru cerbyd V5CW (llyfr log), pan fydd ar gael
- bod yr holl gofnodion (meysydd) yn cael eu llenwi fel yr eglurir yn y canllaw defnyddiwr

Mae'n bwysig iawn bod defnyddwyr yn cyflwyno manylion cywir. Gall darparu gwybodaeth anghywir arwain at osod COD yn erbyn y cerbyd anghywir.

## Arbed – nodyn pwysig

- Rhaid ichi beidio â gwerthu cerbyd ymlaen sydd wedi derbyn hysbysiad COD wedi'i osod yn erbyn y cofnod oherwydd unwaith y bydd COD wedi'i gadarnhau, rhaid i'r cerbyd gael ei ddinistrio'n gorfforol.
- Ni fydd cerbydau sydd wedi cael eu difrodi'n ddifrifol (categoriâu dilead yswiriant C&B) byth yn cael eu rhoi yn ôl ar y ffordd.
- Dim ond os cânt eu categoreiddio fel arbediad B, S neu N y gallwch eu hadfer neu eu gwerthu ar rai 'rhannau' penodol o gerbydau. Cyfeiriwch at God Ymarfer Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) ar gyfer categoreiddio arbed cerbydau am fwy o fanylion.

**Nodyn:** Mae DVLA yn cynnal archwiliadau rheolaidd o ddata cerbydau a gall rybuddio'r rheolydd amgylcheddol sy'n gyfrifol am roi caniatâd o unrhyw anghysondebau os oes tystiolaeth nad yw'r ATF wedi cadw at yr telerau ac amodau hyn.

Ar ôl i wybodaeth cerbyd gael ei gwirio a'i mewnbwnnu gan y defnyddiwr, bydd y data'n cael ei wirio yn erbyn y gofrestr cerbydau. Pan ddarganfyddir paru, bydd y system yn dychwelyd gwybodaeth am y cerbyd hwnnw. Rhaid i'r defnyddiwr ATF sy'n cyrchu'r system gadarnhau bod y wybodaeth a ddychwelwyd am y cerbyd a gyflwynwyd iddynt yn gywir a rhaid gwirio mai hwn yw'r cerbyd sydd wedi'i ddadlygru neu ei ddinistrio'n gywir ganddo.

Rhaid ichi, deiliad y drwydded (defnyddiwr ATF):

- ddilyn y canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon a chyhoeddi COD ar gyfer pob cerbyd sy'n cael ei ddadlygru neu ei ddinistrio
- sicrhau bod COD wedi'i gyhoeddi o fewn amserlen resymol o 7 i 14 diwrnod ar ôl gwneud penderfyniad i ddinistrio cerbyd (cytunwyd ar yr amserlen gyda chynrychiolwyr y diwydiant) - mae'r amserlen hon yn hanfodol i gynnal cywirdeb y gofrestr cerbydau

## **Defnyddio cyfeirnod DVLA wrth hysbysebu eich busnes COD**

Fel deiliad trwydded, gallwch gynghori yn eich deunyddiau hysbysebu eich bod yn cymryd rhan yn y cynllun COD; ond rhaid ichi beidio ag awgrymu bod DVLA wedi cefnogi neu gymeradwyo'ch sefydliad mewn unrhyw ffordd.

## **Methiant system**

Os bydd methiant system yn para mwy na 48 awr, rhaid ichi roi gwybod naill ai trwy e-bost: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk) neu ffonio'r ddesg gymorth ar: 0300 123 1345 (opsiwn 3).

## **Gweithdrefnau wrth gefn**

Os bydd system yn methu dros dro (llai na 48 awr) yn lleoliadau'r naill barti neu'r llall neu'r rhwydwaith etholedig, bydd unrhyw brosesu a throsglwyddo gwybodaeth yn cael ei wneud, fel arfer, unwaith y bydd y system wedi'i hadfer. Os bydd system yn methu'n fwy difrifol (mwy na 48 awr) yn lleoliadau'r naill barti neu'r llall neu'r rhwydwaith etholedig, rhaid bod ffordd i ôl-ddyddio'r COD a:

- bydd angen cofnodi a chyflwyno gwybodaeth unwaith y bydd y system wedi'i hadfer
- dim ond personél awdurdodedig fydd yn gallu cyrchu'r wybodaeth

## **Alldyniad neu ataliad**

Gall DVLA alldynnu mynediad i'r system heb rybudd os yw'r drwydded amgylcheddol neu'r drwydded rheoli gwastraff yn cael ei hatal, ei dirymu, ei hildio, ei throsglwyddo'n anghywir (ei phasio ymlaen) i ddeiliad trwydded arall, neu'n peidio â bodoli am unrhyw reswm arall. Gellir alldynnu mynediad yn ôl hefyd os nad yw'r drwydded neu ddeiliad trwydded rheoli gwastraff yn cyflawni gweithrediadau trin gwastraff ar y safle a ganiateir mwyach.

## **Mynediad trydydd parti i IDau a chyfrineiriau defnyddwyr**

Ble mae rhaid ichi, y defnyddiwr ATF, ddefnyddio rhyngwyneb a ddarperir gan drydydd parti i gael mynediad at DVLA Ar-lein i:

- gyhoeddi COD
- diweddarau cofnod cerbyd gyda NOD
- darparu ystadegau, data diwydiant

rhaid ichi, ym mhob achos, gysylltu â desg gymorth COD i ofyn am awdurdodiad a chytundeb y gallwch symud ymlaen cyn rhannu IDau a chyfrineiriau defnyddwyr gyda thrydydd parti.

Cyn darparu awdurdodiad a chytundeb, bydd yn ofynnol i'r trydydd parti ddarparu gwybodaeth DVLA mewn perthynas â diogelwch, storio, defnyddio a throsglwyddo data. Yna bydd DVLA yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar y wybodaeth a gaiff ei ddarparu. Bydd methiant i ymfyn am awdurdodiad a chytundeb gan DVLA dorri'r telerau ac amodau defnydd a allai arwain at atal neu symud mynediad i'r gwasanaeth ar-lein.

## **Cwmpas (anfon e-byst i DVLA)**

Mae'r trefniant ar gyfer anfon gohebiaeth electronig yn cynnwys negeseuon e-bost rhwng y DVLA, deiliad y drwydded, y defnyddiwr neu'r sefydliad.

## Dilysrwydd gohebiaeth e-bost

Mewn unrhyw neges e-bost a anfonir i [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk) rhaid ichi ddarparu eich enw ATF, cyfeiriad, a rhif trwydded.

## Uniondeb

Rhaid i bob parti, pan yn gweithredu fel anfonwr, sicrhau bod pob gohebiaeth e-bost yn gyflawn, yn gywir ac na ellir ei newid pan wedi ei anfon. Bydd pob parti yn derbyn y dylent roi'r un statws i bob neges e-bost â dogfen bapur neu wybodaeth a basiwyd heblaw trwy ddulliau electronig. Yr unig eithriad i hwn yw os gallant ddangos bod y negeseuon wedi'u llygru o ganlyniad i fethiant technegol ar ran y peiriant, system, neu'r llinellau trawsyrru.

## Diogelwch a chyfrinachedd y rhyngrwyd

Rhaid i bob parti sefydlu a chynnal gweithdrefnau i sicrhau, cyn belled ei fod yn rhesymol ymarferol, bod negeseuon:

- yn cael eu storio'n iawn a'u cadw'n ddiogel
- ddim yn hygyrch i bobl anawdurdodedig
- dim ond yn cael eu hadfer gan bersonél awdurdodedig ac nid yw'n cynnwys data a fydd yn cael ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall heblaw ei fod wedi'i gasglu a'i ddal ar ei gyfer

## Diogelwch data

Am ragor o wybodaeth am pam rydym yn casglu a sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a gyda phwy i gysylltu, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar [www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy](http://www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy). Bydd deiliad y drwydded yn gyfrifol am:

- sicrhau bod ganddynt broses ar waith i sicrhau mai dim ond defnyddwyr awdurdodedig sy'n cyrchu'r gronfa ddata COD
- yr holl weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r derfynfa unwaith y byddant wedi mewngofnodi i'w system a hyd nes y daw'r sesiwn i ben
- allgofnodi cyn gadael y derfynfa neu ar ddiwedd pob sesiwn
- rheoli mynediad i'r system gan ddefnyddio cyfrineiriau ac enwau defnyddwyr
- rhoi gwybod am unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r system i DVLA ar 0300 123 1345
- agweddau ar ddiogelwch corfforol unrhyw ddata a gedwir o gronfa ddata COD
- gwneud copi wrth gefn ac adfer system y defnyddiwr
- dirymu tystysgrifau cofrestru V5CW (llyfr log) wrth eu cyflwyno ac ysgrifennu 'wedi canslo' mewn inc ar draws blaen y V5CW neu ddefnyddio stamp rwber priodol a chadw unrhyw V5CW am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad yr hysbyswyd eich bod yn sgrapio (ar gyfer dibenion archwilio ac mae DVLA yn cadw'r hawl i adolygu'r cyfnod o 12 mis a chaiff gynnal archwiliad ar unrhyw adeg)


## Canllaw datrys problemau

<p><b>Beth sydd angen i mi ei wneud gyda'r ddogfen hon (telerau ac amodau)?</b></p>	<p>Mae'r ddogfen hon yn ganllaw i ddefnyddiwr ac yn ddatganiad sy'n amlinellu'r holl delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'ch mynediad electronig i'r system COD.</p> <p>Rhaid ichi ddarllen, deall a chytuno i'r holl delerau ac amodau.</p> <p>Cadwch y canllaw hwn yn ddiogel, oherwydd efallai y bydd angen ichi gyfeirio ato eto. Er enghraifft, os rhoddir mynediad i ddefnyddiwr arall yn eich cwmni, bydd disgwyl iddynt hefyd ddarllen, deall a chytuno'n llawn i'r holl delerau ac amodau.</p>
<p><b>Rwyf wedi colli fy nghyfrinair/rwy'n cael trafferth wrth gyrchu'r system COD, beth ddylwn i ei wneud?</b></p>	<p>Bydd y ddesg gymorth ailosod cyfrinair ar gael rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am a 2pm ddydd Sadwrn.</p> <p>Ar gyfer pob ymholiad arall, cysylltwch â 0300 123 1345 rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.</p>
<p><b>Mae rhywun wedi defnyddio fy manylion i gael mynediad i'r system COD, sut ydw i'n rhoi gwybod am hwn?</b></p>	<p>Dylid rhoi gwybod i DVLA yn syth am ddefnydd anawdurdodedig o'r system ar 0300 123 1345.</p>
<p><b>Rydw i wedi gwneud datganiad COD neu NOD ar ddamwain yn erbyn y cerbyd anghywir, beth ddylwn i wneud?</b></p>	<p>Dylid rhoi gwybod am gamgymeriad COD ar unwaith trwy e-bostio desg gymorth DVLA COD <a href="mailto:atfcod.requests@dvla.gov.uk">atfcod.requests@dvla.gov.uk</a></p> <p>Dylech esbonio'r gwall a darparu'r dystiolaeth gywir i ddangos bod y cerbyd yn parhau i fodoli ac na ddylid fod wedi'i ddatgan fel COD.</p> <p>Nodwch: bydd unrhyw wall na roddwyd gwybod amdano ar unwaith yn cael ei wrthod. Bydd manylion defnyddiwr ATF sy'n gwneud gwallau yn rheolaidd yn cael eu trosglwyddo i'r rheolydd amgylcheddol perthnasol a roddodd y drwydded. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i COD gael ei ddileu. Bydd unrhyw ATF y gwelir ei fod yn gwneud gwallau rheolaidd yn cael ei ymchwilio a gallai hyn arwain at gael gwared â'ch mynediad.</p>
<p><b>Dydw i ddim wedi cael V5CW ar gyfer y cerbyd rwy'n ei ddinistrio (sgrapio). Beth ddylwn i wneud?</b></p>	<p>Gallwch barhau i wneud datganiad COD neu NOD ar gyfer cerbyd heb y V5CW (llyfr log). Dylech fod wedi dal manylion y cerbyd trwy berfformio gwiriad gweledol o'r cerbyd cyn iddo gael ei ddinistrio.</p> <p>Mae DVLA yn disgwyl i bob cerbyd gael ei wirio'n gorfforol i sicrhau bod y manylion a ddaliwyd yn gywir. Mae angen gwiriad corfforol o fanylion y cerbyd hyd yn oed os cyflwynir V5CW. Ni ddylai COD neu NOD fod yn seiliedig yn unig ar fanylion a gymerwyd o unrhyw waith papur neu hysbysiad trydydd parti.</p>
<p><b>Mae gen i V5CW ar gyfer cerbyd sydd wedi cael ei ddinistrio (sgrapio). Beth ddylwn i wneud gyda hon nawr?</b></p>	<p>Mae angen ichi gadw'r dystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) am hyd at 12 mis ar ôl dinistrio'r cerbyd. Gall DVLA gynnal archwiliad o sefydliad defnyddiwr COD ar unrhyw adeg a gofyn am wirio gwaith papur. Fe ddylech ysgrifennu 'wedi canslo' mewn inc ar draws blaen y V5CW neu ddefnyddio stamp rwber priodol gyda'r gair wedi canslo arno.</p>

<p><b>Rydw i wedi gwerthu cerbyd y hysbyswyd ei fod wedi'i ddinistrio (ei sgrapio) ar ddamwain – beth ddylwn i wneud?</b></p>	<p>Mae angen ichi gysylltu â'r cwsmer ar unwaith ac adfer y cerbyd. Rhaid dinistrio'r cerbyd. Byddai cofnod y cerbyd wedi cau, felly nid yw'n gyfreithiol i'r cerbyd gael ei yrru ar y ffordd. Nid yw DVLA yn gyfrifol am y gwallau hyn a bydd yn hysbysu unrhyw un sy'n gwneud cais am dystysgrif gofrestru V5CW i fynd yn ôl at y cwmni a gyhoeddodd y COD. Ar gais, gall DVLA roi manylion ATF i'r cwsmer.</p>
<p><b>Rydw i'n gwerthu fy nghwmni – a allaf drosglwyddo fy nhrwydded a rhoi mynediad i'r defnyddiwr i system newydd DVLA COD?</b></p>	<p>Na, rhaid i bob defnyddiwr newydd gael caniatâd gan y rheolydd amgylcheddol perthnasol: naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr</li> <li>• Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban</li> <li>• Cyfoeth Naturiol Cymru</li> <li>• Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon</li> </ul> <p>Rhaid i ddefnyddwyr newydd hefyd wneud cais i DVLA am eu mynediad eu hunain i'r system COD, trwy e-bost: <a href="mailto:cod@dvla.gov.uk">cod@dvla.gov.uk</a> neu bostio i:</p> <p>Digidol Tîm COD Gweithrediadau Digidol DVLA Abertawe SA6 7JL</p>
<p><b>Mae fy nhrwydded a roddwyd gan y rheolydd amgylcheddol wedi'i hatal – a allaf ddal i gael mynediad i'r system COD?</b></p> <p><b>A allai ofyn i ATF arall gyhoeddi COD ar fy rhan?</b></p>	<p>Pan fydd eich trwydded yn cael ei hatal neu ei chymryd i ffwrdd, bydd y rheolydd amgylcheddol perthnasol yn ysgrifennu i DVLA i'n hysbysu o hyn a bydd eich mynediad i'r system DVLA COD hefyd yn cael ei atal neu ei gymryd nes bydd DVLA wedi cael gwybod eich bod wedi cael eich adfer (unwaith y gallwch cwrdd â'r gofynion).</p> <p>Rhaid ichi beidio â chaniatáu i ATF arall gyhoeddi COD ar eich rhan.</p>
<p><b>Pa fesurau diogelwch sydd angen i mi eu rhoi ar waith wrth gyrchu'r system COD?</b></p>	<p>Dylech:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau nad oes unrhyw un yn gallu gweld eich enw defnyddiwr neu gyfrineiriau wrth gyrchu'r system</li> <li>• sicrhau nad ydych yn gadael y cyfrifiadur heb oruchwyliaeth pan fyddwch yn cyrchu'r system</li> <li>• allgofnodi bob tro y byddwch yn gorffen defnyddio'r system COD</li> <li>• ysgrifennu wedi canslo ar bob tystysgrif gofrestru V5CW a roddir ichi a sicrhau bod rhain yn cael eu storio'n ddiogel am gyfnod o 12 mis</li> </ul> <p>Os credwch fod unrhyw un arall wedi cyrchu'r system rhaid ichi roi gwybod i DVLA ar unwaith: <a href="mailto:cod@dvla.gov.uk">cod@dvla.gov.uk</a></p>

## Cysylltiadau DVLA:

- I roi gwybod am COD a wnaed trwy gamgymeriad, e-bostiwch: [atfcod.requests@dvla.gov.uk](mailto:atfcod.requests@dvla.gov.uk) Rhaid rhoi gwybod ar unwaith am wallau ATF COD. Bydd unrhyw wall na roddwyd gwybod amdano ar unwaith, yn cael ei wrthod.
- I roi gwybod am unrhyw fater mynediad system COD, e-bostiwch: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk)







## Terms and conditions on the use of DVLA's certificate of destruction online service and the issue of notification of destructions for vehicles.

### Purpose

These terms and conditions have been issued to authorised treatment facilities (ATFs), registered to use DVLA's certificate of destruction (COD) online service. It also covers the issue of a notification of destruction (NOD) for vehicles not permitted to be notified through the COD system.

As an ATF user:

- you must fully read, understand, and agree to all the terms and conditions, as set out within this document
- you acknowledge your acceptance and understanding of the requirements when accessing [www.dvlaonline.gov.uk](http://www.dvlaonline.gov.uk)
- failure to abide to these terms and conditions may result in information being passed over to the environmental regulator who issued the permit

### Definition of ATF user:

A person or company who holds a valid ATF permit issued by the relevant environmental regulator.

### When to issue a COD

The COD is issued to verify that a vehicle is destroyed in line with the requirements of Section 17A of the Road Vehicles (Registration and Licensing) Regulations 2002 (as amended) and The End of Life Vehicle Regulations 2003 (as amended). A COD must be issued to the keeper of the vehicle or to the person who presents the vehicle to an ATF. Vehicles included are:

- cars
- light vans up to 3500kg
- three-wheeled vehicles (excluding motor tricycles or scooters)

### When to issue a NOD

A NOD should be issued to vehicles not in scope of the [End of Life Vehicle Regulations 2003](#). For example, heavy goods vehicles and other vehicles weighing over 3500kg. Tricycles and scooters will also need to submit a NOD.

When the ATF user inputs the vehicle details on the COD online system it automatically updates the details as a NOD. When the vehicle record is updated to reflect a NOD, unlike a COD, no destruction certificate (COD) is issued.

### The purpose of the COD system

It allows an ATF to fulfil their legal obligation to notify DVLA when a vehicle is depolluted or destroyed (scrapped) and provide the facility to:

- issue a COD and tell DVLA to permanently close a vehicle record if it has been depolluted or destroyed (scrapped)
- tell DVLA a vehicle has been depolluted or destroyed (scrapped) and the vehicle has been issued with a NOD (a NOD applies to all vehicles falling outside of the scope of the End of Life Vehicle Regulations 2003)

## Issuing a COD is a legal requirement

This information is contained within Section 17A of the Road Vehicles (Registration and Licensing) Regulations 2002 (as amended) and the End of Life (ELV) Vehicle Regulations 2003 (as amended). It is confirmation from an ATF that a vehicle has been destroyed by a facility that holds the appropriate permissions to do so.

1. The ATF is legally required to process notifications with the accurate vehicle details.
2. Once a COD is completed, the notification automatically closes the DVLA record and no further action is processed (for example, a change of keeper, issue of a registration certificate V5C (logbook)).
3. The vehicle will not be used on the road once a COD declaration is made (it should be correctly destroyed).
4. There is no legal provision to remove a COD declaration from a vehicle record, so accuracy is vital.

## User access terms

By accessing the DVLA Service you the ATF user, agree to the terms applied by DVLA within this document.

The DVLA online service allows ATFs and organisations, to electronically notify DVLA that a motor vehicle has been depolluted or destroyed (scrapped). The ATF will be able to issue the holder or registered keeper of the vehicle with a COD (no certificates are issued when notifying a NOD).

Where a COD or NOD is raised by a third party (insurance company or broker, service provider), the vehicle to which the COD (or NOD) relates to, must be depolluted and destroyed by the permit holder (the ATF).

By accessing the COD online system, you, the ATF user, agree you:

- have read and understood all terms and conditions outlined within this document
- will adhere to all the requirements and guidance issued
- have received a copy of the user guidance and will follow and adhere to correct practices

## Duration of these arrangements

- Arrangements listed within these terms and conditions will start when DVLA grants you access to the service and you, the ATF user, agree to the terms and conditions. This agreement will remain in force and have effect until DVLA make changes.
- Terms and conditions also apply to current users.
- DVLA will not reimburse the permit holder (ATF user) for any work carried out under the terms of these arrangements.
- By accessing [www.dvlaonline.gov.uk](http://www.dvlaonline.gov.uk) you acknowledge your acceptance and understanding of the above

These terms and conditions have been produced by the DVLA, and are supported by:

- Department for Environment, Food and Rural Affairs (DEFRA)
- Environment Agency (EA), England
- Scottish Environmental Protection Agency (SEPA)
- Natural Resources Wales (NRW)
- Northern Ireland Environment Agency (NIEA)
- British Vehicle Salvage Federation (BVSF)
- Vehicle Recyclers Association (VRA)

## Changes to permit holder (ATF user) details

You must tell the relevant environmental regulator and DVLA immediately (in writing) if there is any change to you, the permit holders' information:

- the change may be because your organisation has been taken over, there has been a change of control or if there has been change of name or status
- in the event of a company being taken over (sold) or a new company set-up, you must apply for your own permit or access

These rights cannot be transferred to a new user an organisation is defined in the Companies Act 1985, and any such changes as defined in section 4116 of the 'The Income and Corporation Taxes Act 1988'.

You can tell DVLA of any change by:

- email: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk)
- by post:  
The COD Team – Digital Operations  
DVLA  
SWANSEA  
SA6 7JL

## DVLA responsibilities

DVLA provides a dedicated website and:

- maintains the website to allow an ATF to electronically notify the destruction of a motor vehicle
- provides the facility to print a COD
- grants access to the online system once the ATF site is operating in accordance with the necessary standards and DVLA have been notified about issuing a permit by the appropriate environmental regulator
- provides appropriate user documentation, user requirement data and a helpdesk facility (helpdesk telephone contact number for password resetting related queries only is 0300 123 0793 and is available 8am to 5pm Monday to Friday and 9am to 2pm on Saturday. All other queries contact 0300 123 1345 during 8am to 5pm Monday to Friday)
- is responsible for providing appropriate user access IDs and for preventing unauthorised access to these IDs and passwords
- returns specific vehicle data when they get a COD or NOD from the company to allow them to cross check the data the user submits
- returns error messages if a transaction fails validation checks, (this will allow the organisation to decide what to do next) and appropriate action contained within the user documentation
- is responsible for carrying out and commissioning audit reviews to ensure user internal control systems provide sufficient security arrangements, which comply with this agreement and conform to best practice

## Audit process

DVLA reserves the right to investigate a COD user if evidence is presented to show an ATF user has misused the system.

To protect the accuracy of the vehicle register, DVLA has the right to conduct audits or checks of an ATF at any time.

In the event that evidence is uncovered of any suspicions of fraud or criminal activity, DVLA may, if appropriate, forward information to the police and environmental regulator who issued the permit.

The ATF must agree to apply the correct practices, as outlined within these terms and conditions, and follow the guidance issued when making COD declarations.

## **For audit purposes, you, the ATF or COD user must agree to:**

- shred all registration certificates V5C (logbooks) after the agreed retention period of 12 months
- securely store any extracted information taken from the COD database, as any information obtained relating to it should be correctly destroyed as soon as the system user has finished using it
- not duplicate or copy the information as it is the property of DVLA (and copyright of this data is the sole property of the Crown)
- provide DVLA access to your organisation's operational area to check how your process COD or ELV vehicle data
- give DVLA access to any files and records relating to scrapped (COD) vehicle information to ensure the data is used correctly and that security of your storage or access, complies with the requirements of data protection legislation
- allow DVLA access to audit your facilities or premises and give DVLA access to any internal control systems for auditing purposes – this is to ensure you comply with best practice when collating and processing COD or ELV vehicle information

## **Accessing the COD online system**

You the ATF user must:

- enter your unique username or ID and password provided by DVLA, and in doing so agree to the terms – you will then be able to log on to the COD or NOD service
- ensure that your username and password is kept secure and not used by any other person or organisation unless you provide a service to the permit holder (ATF user) to facilitate compliance

## **Issuing a COD through the online system**

Before you depollute or destroy a vehicle and issue a COD, you must observe or record and input specific information (data) about the vehicle and ensure:

- data input into the system is correct – this includes having physical sight and taking an accurate note of the vehicle registration number and VIN
- details are taken from the actual vehicle
- you cross reference the vehicle details against the vehicle registration certificate V5C (logbook), when it is available
- all entries (fields) are filled in as explained within the user guide

It is very important that accurate details are submitted by users. Providing incorrect information may result in a COD being set against the wrong vehicle.

## **Salvage – important note**

- You must not sell on a vehicle that has received a COD notification set against the record as once a COD has been confirmed, the vehicle must be physically destroyed.
- Seriously damaged vehicles (A&B insurance write off categories) will never be put back on the road.
- You may only recover or sell on certain 'parts' of vehicles if they are categorised as salvage B, S or N. Please refer to the Association of British Insurers (ABI) Code of Practice for the categorisation of vehicle salvage for more detail.

**Note:** DVLA carries out regular audits of vehicle data and may alert the environmental regulator responsible for issuing a permit of any discrepancies if there is evidence that the ATF has not adhered to these terms and conditions.

Once vehicle information has been checked and input by the user, the data will be checked against the vehicle register. Where a match is found, the system will return information on that vehicle. The ATF user accessing the system must confirm the information returned about the vehicle presented to them is correct and verify that this is the vehicle that has been correctly depolluted or destroyed by them.

You, the permit holder (ATF user) must:

- follow the guidance provided in this document and issue a COD for all vehicles depolluted or destroyed
- ensure a COD has been issued within a reasonable time scale of 7 to 14 days of making a decision to destroy a vehicle (the timeframe has been agreed with industry representatives) – this timescale is vital to maintain the accuracy of the vehicle register

## **Use of DVLA reference when advertising your COD business**

As a permit holder you may advise in your advertising materials you are participating within the COD scheme; but you must not imply that DVLA has endorsed or approved your organisation in any way.

## **System failure**

If there is a system failure lasting more than 48 hours you must report either by email: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk) or telephone the helpdesk on: 0300 123 1345 (option 3).

## **Backup procedures**

In the event of a temporary system failure (less than 48 hours) at either party's locations or with the elected network, any processing and transmission of information will be done as normal once the system is recovered. If there is a more severe system failure (more than 48 hours) at either party's locations or with the elected network, there must be a way to backdate the COD and:

- information will need to be recorded and submitted once the system is restored
- only authorised personnel will be able to access the information

## **Withdrawal or suspension**

DVLA can withdraw access to the system without notice if the environmental permit or waste management licence is suspended, revoked, surrendered, incorrectly transferred (passed on) to another permit holder, or ceases to exist for any other reason. Access may also be withdrawn if the permit or waste management licence holder no longer carries out waste treatment operations at the permitted site.

## **Third party access to user IDs and passwords**

Where you, the ATF user needs to use an interface provided by a third party to access DVLA Online to:

- issue a COD
- update a vehicle record with a NOD
- provide statistics, industry data

you must, in all instances, contact the COD helpdesk to seek authorisation and agreement that you may proceed prior to sharing user IDs and passwords with a third party.

Prior to providing authorisation and agreement, the third party will be required to provide DVLA information in respect of security, storage, use and transfer of data. DVLA will then evaluate each application based on the information provided. Failure to seek authorisation and agreement from DVLA will be a breach of the terms and conditions of use which may result in access to the online service being suspended or removed.

## **Scope (sending emails to DVLA)**

The arrangement for sending electronic correspondence covers email messages between the DVLA, the permit holder, the user or organisation.

## **Email correspondence authenticity**

In any email message sent to [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk) you must provide your ATF name, address, and permit number.

## **Integrity**

Each party, when acting as sender, must make sure all email correspondence is complete, accurate and cannot be altered when sent. Each party will accept that they should give all email messages the same status as that of a paper document or information passed other than by electronic means. The only exception to this is if they can show the messages have been corrupted as a result of technical failure on the part of the machine, system, or transmission lines.

## **Internet security and confidentiality**

Each party must establish and maintain procedures to ensure, as far as reasonably practicable, messages are:

- properly stored and kept secure
- not accessible by unauthorised persons
- only be retrieved by authorised personnel and does not contain data that will be used for any other purpose other than for which it has been collected and held

## **Security of data**

For further information about why we collect and how we process your data, your rights and who to contact, see our privacy notice at [www.gov.uk/dvla/privacy-policy](http://www.gov.uk/dvla/privacy-policy). The permit holder will be responsible for:

- ensuring they have a process in place to ensure that only authorised users access the COD data base
- all activity associated with the terminal once they are logged onto their system and until the session is terminated
- logging off before leaving the terminal or at the end of each session
- controlling access to the system using passwords and usernames
- reporting any unauthorised use of the system to DVLA on 0300 123 1345
- aspects of physical security of any data held from the COD database
- backup and recovery of the user's system
- the voiding of registration certificates V5Cs (log books) when presented and write 'cancelled' in ink across the front of the V5Cs or use an appropriate rubber stamp and retain any V5Cs for a period of 12 months from the date of notification of scrapping (for audit purposes and DVLA reserves the right to revise the 12-month period and may conduct an audit at any time)

## Troubleshooting guide

<p><b>What do I need to do with this document (terms and conditions)?</b></p>	<p>This document is both a user guide and a statement outlining all the terms and conditions linked to your electronic access to the COD system.</p> <p>You must read, understand, and agree to all the terms and conditions.</p> <p>Please keep this guide safe, as you may need to refer to it again. For example, if access is granted to another user within your company, they will also be expected to fully read, understand, and agree to all the terms and conditions.</p>
<p><b>I have lost my password/I am having difficulty accessing COD system, what do I do?</b></p>	<p>The password resetting help desk will be available 8am to 5pm Monday to Friday and 9am to 2pm on Saturday.</p> <p>All other queries please contact 0300 123 1345 during 8am to 5pm Monday to Friday.</p>
<p><b>Someone has used my details to access the COD system, how do I report this?</b></p>	<p>Reports of unauthorised use of the system should be immediately reported to DVLA on 0300 123 1345.</p>
<p><b>I have accidentally made a COD or NOD declaration against incorrect vehicle, what do I do?</b></p>	<p>A COD error should be reported immediately by emailing DVLA COD helpdesk <a href="mailto:atfcod.requests@dvla.gov.uk">atfcod.requests@dvla.gov.uk</a></p> <p>You should explain the error and provide the correct evidence to demonstrate that the vehicle remains in existence and should not have been declared as COD.</p> <p>Please note: any error that has not reported immediately will be refused. Details of an ATF user identified as regularly making errors will be passed to the relevant environmental regulator who issued the permit. The law does not permit for COD to be removed. Any ATF seen to be making regular errors will be investigated and this may result in having your access removed.</p>
<p><b>I have not been given a V5C for the vehicle I am destroying (scrapping). What should I do?</b></p>	<p>You can still make a COD or NOD declaration for a vehicle without the V5C (logbook). You should have captured the vehicle details by performing a visual check of the vehicle before it was destroyed.</p> <p>DVLA expects all vehicles to be physically checked to ensure that the details captured are correct. A physical check of the vehicle details is required even if a V5C is presented. A COD or NOD should not be based on details taken from any paperwork or third party notification alone.</p>
<p><b>I have a V5C for a vehicle that has been destroyed (scrapped). What do I do with this now?</b></p>	<p>You need to keep the V5C registration certificate (logbook) for up to 12 months after the destruction of the vehicle.</p> <p>DVLA can carry out an audit of a COD user's establishment at any time and ask to check paperwork. You should write 'cancelled' in ink across the front of the V5C or use an appropriate rubber stamp with the word cancelled on it.</p>

<p><b>I have accidentally sold a vehicle that was notified as destroyed (scrapped) – what should I do?</b></p>	<p>You need to contact the customer immediately and retrieve the vehicle. The vehicle must be destroyed. The vehicle record would have been closed, so it is not legal for the vehicle to be driven on the road. DVLA is not responsible for these errors and will inform anyone applying for a V5C registration certificate to go back to the company that issued the COD. DVLA can upon request, provide the customer with the details of an ATF.</p>
<p><b>I am selling my company – can I pass on my permit and provide the new company owners with my user access to the DVLA COD system?</b></p>	<p>No, all new users must obtain a permit from the relevant environmental regulator: either:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Environment Agency England</li> <li>• The Scottish Environment Protection Agency</li> <li>• Natural Resources Wales</li> <li>• Northern Ireland Environment Agency</li> </ul> <p>New users must also apply to DVLA for their own access to the COD system, by email: <a href="mailto:cod@dvla.gov.uk">cod@dvla.gov.uk</a> or post to:</p> <p>The COD Team Digital Operations DVLA Swansea SA6 7JL</p>
<p><b>My permit issued from the environmental regulator has been suspended – can I still access the COD system?</b></p> <p><b>Can I ask another ATF to issue CODs on my behalf?</b></p>	<p>When your permit is suspended or taken away, the relevant environmental regulator will write to DVLA to inform us of this and your access to the DVLA COD system will also be suspended or taken away until DVLA has been told you have been reinstated (once you can meet the requirements).</p> <p>You must not allow another ATF to issue CODs on your behalf.</p>
<p><b>What security measures do I need to put in place when accessing the COD system?</b></p>	<p>You should:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• make sure no one can see your username or passwords when accessing the system</li> <li>• make sure you do not leave the computer unattended when you access the system</li> <li>• log off every time you finish using the COD system</li> <li>• write cancelled on every V5C registration certificate handed to you and ensure these are securely stored for a period of 12 months</li> </ul> <p>If you think anyone else has accessed the system you must report this to DVLA immediately: <a href="mailto:cod@dvla.gov.uk">cod@dvla.gov.uk</a></p>

### DVLA contacts:

- To report a COD made in error please email: [atfcod.requests@dvla.gov.uk](mailto:atfcod.requests@dvla.gov.uk)  
ATF COD errors must be reported immediately. Any error that has not reported immediately will be refused.
- To report any COD system access issue please email: [cod@dvla.gov.uk](mailto:cod@dvla.gov.uk)

